

WILLIAMS, DAVID ('Iwan ' ; 1796 - 1823) gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: David Williams
Ffugenw: Iwan
Dyddiad geni: 1796
Dyddiad marw: 1823
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd yn Penpontbren ym mhlwyf Llanwnen, Sir Aberteifi Ionawr 1796. Mynychai Aberduar, lle y gweinidogaethai ei lysdad, David Davies. Wedi bod yn ysgol ramadeg Castell Hywel ac athrofa Bryste, bu'n gofalu am ysgol baratoi y Tabernacl, Caerfyrddin, am ychydig. Ysgrifennai'n aml i *Seren Gomer*, 1818-23, ac ysgrifennodd *Llythyr byr oddi wrth Dwrch daear at ei fam*, a *Serious remarks on the ordinance of baptism*. Cyhoeddwyd ei awdl ar ' Cerddoriaeth ' gyda *Grisiau Cerdd Arwest* ('[Ieuan Ddu](#)'). Ddechrau 1822, byrddiodd ef a'r eiddo long yng Nghaerfyrddin i fyned yn weinidog ac ysgolfeistr yn swydd Dyfnaint, eithr gorfododd ystorm aruthr hwynt i lochesu yn Abertawe. Rhoes [Joseph Harris](#) ('Gomer') lety i'r teulu, a chadw David Williams i bregethu i'r Saeson a hyfforddi ei fab John yn y clasuron. Bu farw 10 Ionawr 1823. Cyfansoddodd '[P.A. Môn](#)' awdl, a '[Gwilym Caledfryn](#)' englynion coffa iddo.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Seren Gomer, 1823, 129-32

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 636

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [121112440](#)

Wikidata: [Q28361514](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

